
# y dinesydd

Mawrth 1997 PAPUR BRO DINAS CAERDYDD A'R CYLCH Rhif 226


## Y DEWI SANT ARALL!

Eglwys Dewi Sant? Mewn ffordd, ie a nage! Beth amser yn ôl, yn *Y Dinesydd*, cyfeiriwyd at wasanaeth yn Eglwys (bresennol) Dewi Sant i gofio am ddeugain mlynedd yn yr adeilad ar ôl i'r Eglwys Dewi Sant wreiddiol, hardd, gael ei bomio adeg y rhyfel. Mae'r *Dinesydd* yn ddiolchgar i Mr Brynmor Jones, un o aelodau ffyddlon yr eglwys, ac un sy'n gweithio yn Llyfrgell y Ddinas, am y llungopi hwn o'r Eglwys Dewi Sant wreiddiol, adeilad nodedig o hardd.



Hen adeilad Eglwys Dewi Sant yng Ngerddi Howard

# MENTER GYMRAEG I GAERDYDD?

Yn sgîl cyfarfod a gynhaliwyd cyn y Nadolig dan arweiniad cyfeillion o Fenter Taf-Elái sefydlwyd pwyllgor llywio i drafod yr egwyddor o sefydlu menter i hyrwyddo'r Gymraeg yn y brifddinas. Bu'r pwyllgor llywio yn brysur yn ystod mis Ionawr a Chwefror yn braenaru'r tir ac yn paratoi ar gyfer cyfarfod cyhoeddus i drafod y mater ymhellach.

Cynhelir y cyfarfod hwnnw **nos Fercher 26 Mawrth** am 7.30 o'r gloch yn Neuadd y Sir, Glanfa Iwerydd. Eisoes bu trafodaethau adeiladol anffurfiol â swyddogion y Cyngor Sir a Bwrdd yr Iaith a chyflwynir adroddiad arnynt yn y cyfarfod cyhoeddus.

Anogir pob un o gyfeillion y Gymraeg yng Nghaerdydd i fynychu'r cyfarfod pwysig hwn. O gael cefnogaeth i'r egwyddor o sefydlu menter bwriedir ffurfio pwyllgor gwaith i ymgymryd â'r dasg o sefydlu menter weithredol gyda chyllid ac adnoddau i gyflawni rhaglen waith briodol.

Beth fyddai'n rhaglen waith briodol i fenter iaith yn y brifddinas? Bu'r pwyllgor llywio'n ystyried y cwestiwn hwn a chytunwyd y gallai'r canlynol fod yn amcanion posibl i Fenter Caerdydd:

- Hyrwyddo cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg trwy weithgareddau hamdden, cymdeithasol a diwylliannol.
- Annog a rhoi hyder i siaradwyr y Gymraeg ddefnyddio'r iaith a manteisio ar y cyfleusterau/ darpariaeth sydd eisoes ar gael trwy gyfrwng yr iaith.
- Marchnata'r ddarpariaeth bresennol trwy orolwg manwl o'r iaith ar waith yng Nghaerdydd - datblygiad o orolwg digwyddiad *Yn Gymraeg yng Nghaerdydd*.
- Hyrwyddo addysg trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Cefnogi oedolion sy'n dysgu Cymraeg.
- Cydnabod a hyrwyddo'r ddarpariaeth/cyfleoedd hamdden, cymdeithasol a diwylliannol presennol ac adeiladu arnynt trwy adnabod bylchau a chynllunio yn ôl yr anghenion.
- Harneisio ewyllys da tuag at yr iaith ac egni gwirfoddolwyr lleol.
- Hybu'r defnydd a wneir o'r iaith yn y gymuned a chynllunio gweithgareddau sy'n adlewyrchu diddordebau cymunedau lleol o fewn y ddinas.
- Creu cyfleoedd gwaith trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Meithrin cyfleoedd i blant/ieuenctid/teuluoedd ddefnyddio'r iaith mewn cyd-destun hamdden yn eu cymuned.
- Ymbriodi â, hyrwyddo a chefnogi datblygiad Polisi Iaith Cyngor Sir Caerdydd.

Beth yw eich barn chi? Oes angen menter iaith yn y brifddinas? Pe bai menter yn cael ei sefydlu, a fyddai'r amcanion uchod yn ateb eich anghenion chi o ran defnyddio'r Gymraeg? Mae'r cyfarfod ar 26 Mawrth yn gyfle i chi fynegi eich barn a dangos eich cefnogaeth. Peidiwch â cholli'r cyfle!

Am fanylion cysylltwch â Richard Lewis 390980 (gwaith) neu 470803 (gartre), Steffan Webb neu Gill Stephen 620668 (gartre).

# Y Dinesydd

**Mawrth 1997, Rhif 226.** **ISSN 1362-7546**
Cyhoeddir *Y Dinesydd* gan Bwyllgor *Y Dinesydd.*
Fe'i cysodir gan PPS, Ystum Taf, Caerdydd, a'i argraffu gan Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd.

**Anfonwch ddefnydd ar gyfer rhifyn Ebrill at un o'r canlynol erbyn 14 Mawrth:**
Mr W. J. Jones, 46 Heol Crystalwood, Caerdydd (Ffôn: 756282, Ffacs: 578106): Newyddion Cyffredinol.
Mr Garwyn Davies, 27 Baron Road, Penarth (Ffôn: 708253): Newyddion y Fro.
Mr B. D. Harries, 6 Lakeside, Caerdydd (Ffôn: 756562): Newyddion Byd Addysg Gynradd.
Mr Thomas Davies, 41 Highfields, Caerdydd (Ffôn/Ffacs: 564540): Newyddion Chwaraeon.
Y Parchedig Gwilym Dafydd, 4 Coryton Rise, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd (Ffôn: 626811): Newyddion o'r Eglwysi.
Mr Gareth Kiff (Ffôn: 486469): Gweithgareddau Dysgwyr.

**Anfonwch unrhyw sylwadau am ddosbarthu at:**
Mr Alun Ceri Jones, Surrexit, 2 Merthyr Road, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 1DG. Ffôn: 01222 529888.

## HYSBYSEBION

Mae'r *Dinesydd* yn ffordd ddelfrydol o hysbysebu ac mae hysbysebion yn hanfodol i gynnal y papur. Dylai pawb sydd am hysbysebu gysylltu â:

Miss Catrin Rowlands, 42 Carling Court,
Croes Cwrlwys, Caerdydd CF5 4PH
(Ffôn: 01222 598243).

## CYFRANIADAU ARIANNOL

Diolch i'r canlynol am eu rhoddion at goffau'r *Dinesydd*: Eglwys y Tabernacl, Yr Ais (£25); Eglwys Salem, Treganna (£30); Cymanfa Ganu Caerdydd (£50); Eglwys Ebeneser, Heol Siarl (£34); Eglwys y Crwys (£50); Eglwys Minny Street (£25).

Mae ein trysorydd, Mr Aled Williams, Rhos-y-grug, 89 Pen-twyn, Radur, Caerdydd (Ffôn: 844483) yn croesawu unrhyw gyfraniad bob amser. Cofiwch fod *Y Dinesydd* yn dibynnu'n drwm ar gyfraniadau'r rhai sy'n ei ddarllen.

## FFURFLEN CYFRANNU

Amgaeaf rodd o £__________ fel cyfraniad at gynnal *Y Dinesydd.*

Enw: ..........................................................

Cyfeiriad: ..........................................................

.......................................... Côd Post: ..................

Rhif Ffôn: ..........................................................

Anfoner y ffurflen hon at Mr Aled Williams, Rhos-y-grug, 89 Pen-twyn, Radur, Caerdydd

## FFURFLEN TANYSGRIFIO

Amgaeaf danysgrifiad blwyddyn o £15 er mwyn derbyn *Y Dinesydd* drwy'r post yn rheolaidd.

Enw: ..........................................................

Cyfeiriad: ..........................................................


.......................................... Côd Post: ..................

Rhif Ffôn: ..........................................................

Dychweler y ffurflen hon i swyddfa Surrexit, 2 Merthyr Road, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 1DG.

## CROESAIR AP LEWSYN

**Rhif 158** **Mawrth 1997**




**AR DRAWS**

7. Cwmni o frain yn dwyn gwaradwydd. (5)
8. Cadair Nel all fod yn ganolbwynt yr esgobaeth. (9)
9. Ardal Tomos fu'n gyfrifol am ei uchder. (6)
11. Y rhai bychain hyn! (5,3)
12. Mewn du a gwyn. (12)
15. Addurn sy'n hongian yn ddiamwys. (7)
16. Nogia D.L. oherwydd iselder ysbryd. (7)
18. Mae'n haeddu ei gyflog. (5,2,5)
20. Gwas i Dad sy'n tynnu oddi amdano. (8)
22. Gweler 4 i lawr.
23. Y rhai a fu gynt yn ymgiprys yn y talwrn. (9)
24. Daliadau'r enwad. (5)

**I LAWR**

1. Afrwyddineb dymchwel tŵr â hanes iddo. (9)
2. Mae bod yn eiddgar yn rhan naturiol o bryd dwfrgi. (10)
3. Cyflog blwyddyn yn gyffredin ar ddechrau'r ganrif hon. (7)
4. Y ddiadell sy'n poeni pawb? (a 22 Ar Draws) (6,6,6)
5. Ffedog a wneir o recsyn? (4)
6. Porthladd clyd. (5)
10. Tai afon Senni yn creu amgylchiadau di-les. (12)
13. Fe ddaw awgrym L. ond i brofi ei anwadalwch. (10)
14. Arwydd o swydd barchus? (5,1,3)
17. Penaethiaid ysgolheigaidd yr adrannau. (7)
19. Cydymaith Lynette yn un o weithiau Tennyson. (5)
21. Colli dagrau. (4)

**Cystadleuaeth Rhif 157**
Daeth 14 ymgais i law. Yr oedd gwallau bychain yn chwech ohonynt. Yr enw a dynnwyd i dderbyn y tocyn llyfrau oedd Margaret Jones, 5 Heol Iscoed, Rhiwbina. Y saith ymgais gywir arall oedd: Carys Humphreys, Bangor; E. Haydn Jones, Rhiwbina; Eira M. Jones, Y Mynydd Bychan; Gwenllian Gwyn Jones, Yr Eglwys Newydd; T. A. Owen, Llandaf; Buddug Roberts, Yr Eglwys Newydd; a Buddug Thomas, Llandre, Aberystwyth.

**Cystadleuaeth Rhif 158**
Enw a chyfeiriad ar ymyl y croesair i gyrraedd: 'Croesair Ap Lewsyn', d/o 28 St. Francis Road, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd erbyn 18 Mawrth os gwelwch yn dda.

Cydnabyddir cefnogaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg a Chyngor y Celfyddydau i'r cyhoeddiad hwn.

**Annwyl Olygydd,**

Gan ei fod bellach yn 60 mlynedd ers i Billy Butlin lansio ei gwmni gwyliau enwog, mae Ffilmiau Eryri'n ymchwilio ar gyfer rhaglen ddogfen fydd yn olrhain hanes gwersyll Butlin's Pwllheli a Gwersyll y Barri. Hoffem glywed gan unrhyw un a fu yno'n gweithio, yn perfformio, ar wyliau, neu yno ar drip ysgol Sul ers eu sefydlu, y naill yn y 40au a'r llall yn y 60au. Buasem yn hoffi clywed hefyd sut effaith a gafodd y sefydliadau hyn ar y gymuned ac ar economi'r ardal.

Beth bynnag yw eich profiadau, os hoffech gyfrannu, buasem yn falch iawn o glywed gennych yn Ffilmiau Eryri, Hen Ysgol Aberpwll, Ffordd Bangor, Y Felinheli, Gwynedd LL56 4JS.

Yr eiddoch yn gywir,

**Gwawr Williams**

## Cylch Cinio Cymraeg y Barri

Yng nghyfarfod diweddaraf y cylch cafodd yr aelodau eu diddanu gan Mr Dafydd Meredydd o S4C. Mewn sgwrs ddifyr a diddorol ffrwydrodd ei ddoniolwch a'i frwdfrydedd ar gynulleidfa deilwng. Olrheiniodd ei gefndir cyn mynd ati i hel atgofion am dref Aberystwyth a'r cylch. Daeth i adnabod rhai o gewri'r genedl, rhai fel T. H. Parry-Williams, T. Gwynn Jones, Gwenallt a Tom Parry. Cafwyd gair o ddiolch gan Rhodri Jones.

## Cymdeithas Cyn-fyfyrwyr Aberystwyth

Roedd neuadd Ysgol Howells yn llawn ar nos Wener 14 Chwefror ar gyfer darlith Patrick Hannan ar newyddiaduraeth a'r cyfryngau. Cafwydd darlith oedd yn llawn hiwmor a'r un pryd yn llawn treiddgarwch miniog. Roedd byrddau'n llawn danteithion (a chyfle am sgwrs) yn croesawu pawb ar derfyn y ddarlith, y cyfan wedi ei drefnu gan Mrs Dilys Wynne Lloyd.

## Y Cylch Llyfryddol

*Cofiant John Jones, Talsarn* oedd testun R. Tudur Jones - a gyflwynwyd gan y Llywydd fel 'y gweithiwr mwyaf diarbed yng Nghymru' - pan ddaeth o Fangor i annerch y Cylch Llyfryddol ddiwedd Ionawr. Cymerodd un mlynedd ar bymtheg i Owen Thomas (taid Saunders Lewis) gwblhau'r gyfrol fawr o 1502 o dudalennau a gyhoeddwyd yn 1874, dwy flynedd ar bymtheg ar ôl marw John Jones.

Meddai Owen Thomas ar gof dihysbydd a'r ddawn i gyflwyno'n ddramatig ei frwdfrydedd a'i argyhoeddiad ei hun i'r darllenydd. Daw hyn yn amlwg yn y bennod ola lle, ar ôl manylu ar fywyd John Jones, mae'n neilltuo pennod ar hanes pregethu yng Nghymru. Arwyr y cofiannydd oedd John Elias a John Jones, er nad oedden nhw'n ffrindiau mawr â'i gilydd! Yn y bennod hon ceir darnau cofiadwy fel y cyfeiriad at John Elias yn rhoi meddwon ar ocsiwn yn Sasiwn Caergybi a darlun o gymanfaoedd pregethu llwyddiannus y cyfnod a brwdfrydedd y cynulleidfaoedd.

Roedd gan John Jones lais canu ardderchog ac âi o gwmpas yn dysgu plant i ganu. Dyma gymeriad cadarn iawn, ac un o bregethwyr mwyaf grymus Cymru. Gwnaeth gyfraniad amhrisiadwy a chwbl arbennig i ddiwylliant hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg ac agorodd y drws i agwedd newydd ar Gristnogaeth yng Nghymru.

***D Gwyn Jones***

**DATRYSIAD CROESAIR CHWEFROR**



## Calendr y Dinesydd

**Gwener, 7 Mawrth**
Cymrodorion Caerdydd: Cinio Ŵyl Ddewi yn Neuadd Aberdâr.

**Gwener, 7 Mawrth**
Theatr Iolo a Theatr Gwent yn cyflwyno 'Avo Penn', drama ar gyfer plant 8-12 oed, yn Neuadd Llanofer, Treganna, am 7.00 p.m. Manylion pellach: 01222-613782 neu 01873-853167.

**Mawrth/Mercher, 11-12 Mawrth**
Theatr Gwynedd yn cyflwyno drama Delyth Jones, *Yr Aduniad*, yn Theatr Sherman am 8.00 p.m. Tocynnau: 01222-230451.

**Mawrth, 11 Mawrth**
Cymdeithas Nos Fawrth Eglwys Tabernacl, Yr Ais: Ymweliad gan Gymdeithas Tonyfelin, am 7.30 p.m. Croeso i bawb.

**Mercher, 12 Mawrth**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd, yn festri Capel Minny Street am 2.00 p.m. I annerch: Dr Elunis Goodfellow.

**Iau, 13 Mawrth**
Clwb Gwawr Caerdydd a'r Cyffiniau: Cwis adloniant dan ofal Ieuan Rhys, yng Nghlwb Golff Radur am 8.30 p.m.

**Gwener, 14 Mawrth**
Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd: Swper Ŵyl Ddewi, yn festri Capel Bethel, Heol Pen-llin, am 7.30 p.m. I annerch: Henry Williams.

**Gwener, 14 Mawrth**
Cymry'r Wenallt yn cyfarfod yn y Clwb Rygbi, Heol Felindre, Yr Eglwys Newydd, am 8.00 p.m. I annerch: W. J. Jones.

**Llun, 17 Mawrth**
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd: 'Biomecaneg a'r Peiriannydd.' Darlith gan Dr Aled Môn Roberts (Prifysgol Cymru, Caerdydd), yn Ystafell G71, Prif Adeilad Prifysgol Cymru Caerdydd, Parc Cathays, am 7.30 p.m.

**Mawrth, 18 Mawrth**
Cymdeithas Nos Fawrth Eglwys Tabernacl, Yr Ais: Noson gan Gôr y Tabernacl dan arweiniad Euros Rhys Evans, am 7.30 p.m. Croeso i bawb.

**Gwener, 21 Mawrth**
Cylch Llyfryddol Caerdydd: Noson dan gadeiryddiaeth Huw Ethall pan fydd rhai awduron lleol yn trafod eu gwaith, yn festri Capel Minny Street am 7.00 p.m.

**Llun, 24 Mawrth**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: Eisteddfod yn Neuadd Eglwys Bethany, Heol Llanisien Fach, am 6.30 p.m.

**Mercher, 26 Mawrth**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd, yn festri Capel Minny Street am 2.00 p.m.

**Gwener, 4 Ebrill**
Cymrodorion Caerdydd: Noson yng nghwmni Cymrodorion y Barri, yn festri Capel Minny Street am 7.15 p.m.

**Mercher, 9 Ebrill**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd, yn festri Capel Minny Street am 2.00 p.m.: 'Hawl i Holi'.

**Iau, 10 Ebrill**
Clwb Gwawr Caerdydd a'r Cyffiniau: 'Garddio Hawdd' yng nghwmni Carys Whelan, yng Nghlwb Golff Radur am 8.30 p.m.

**Sul, 13 Ebrill**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: Cymanfa Ganu yn Eglwys Beulah am 8.00 p.m. Arweinydd: Alun Guy.

**Gwener, 18 Ebrill**
Cymry'r Wenallt yn cyfarfod yn y Clwb Rygbi, Heol Felindre, Yr Eglwys Newydd, am 8.00 p.m. I annerch: John Walter Jones.

**Mercher, 23 Ebrill**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd, yn festri Capel Minny Street am 2.00 p.m. I annerch: Dr Elin Jones.

**Iau/Gwener 24-25 Ebrill**
Ysgol Ddeuddydd ar 'Agweddau ar Ddiwylliant Cymru yn y Ganrif Ddiwethaf' dan nawdd Ysgol Hanes ac Archaeoleg Prifysgol Cymru, Caerdydd, yn Adeilad y Dyniaethau, Rhodfa Colum. Manylion pellach: Dr J. Gwynfor Jones (01222-874000).

*Os ydych am gynnwys digwyddiadau yn y Calendr, anfonwch y manylion at: E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 2AJ.*

**Mrs Margaret Evans, Penarth**
Collodd Penarth a'r Fro un arall o Gymry Cymraeg adnabyddus yr ardal ym marwolaeth Mrs Margaret Evans, Heol Redlands, priod y Parchedig Maxwell Evans. Bu'r ddau'n gefnogol iawn i holl achosion crefyddol a diwylliannol y cylch am flynyddoedd lawer. Bydd bwlch mawr ar ei hôl ar ei haelwyd ac yn y gymdeithas yn ogystal ag yn Eglwys Dewi Sant, Caerdydd, lle roedd y niferoedd mawr a ddaeth i'w harwyl yn dyst o gydymdeimlad y bobl â'r holl deulu yn eu galar. Estynnwn ein cydymdeimlad iddynt yn eu colled fawr.

**Mrs Mair Grant, Heol Hollybush**
Bu Mair Grant, Heol Hollybush, Cyncoed, farw'n ddiweddar a chydymdeimlwn yn fawr â Fiona, ei merch a Meudwen, ei chwaer yn eu colled. Hanai Mair o ardal Rhymni a bu ei gŵr, Elfryd farw beth amser yn ôl. Collodd y ddau eu mab, Jeremy, yn y chwedegau'n ddeuddeg oed. Bu hyn yn ergyd dost iddynt.

**Mrs Ceri Morgan Mills, Caerloyw**
Cydymdeimlwn â Mr Tom a Mrs Irona Morgan, Llys-faen, (gynt o Riwbina lle'r oedd Mrs Morgan yn cadw siop fferyllydd) ar farw'u merch Ceri'n frawychus o sydyn yn 39 oed yng Nghaerloyw. Gedy Ceri ŵr, Tony, a dau blentyn, Elin a Rhys, i alaru ar ei hôl. Graddiodd yn y gyfraith yn Birmingham, cyn priodi â Tony (a oedd yn astudio yn yr un coleg â hi). Dilynodd ef yrfa'n swyddog yn yr RAF. Newydd ddychwelyd o ynys Cyprus (gyda'r RAF) oedd y ddau pan chwalwyd y teulu gan y medelwr mawr.

**Mrs Blodwen Morris, Rhiwbina**
Cydymdeimlwn â William a Christine Morris, Rhiwbina, a'r plant a'r wyrion ar farw mam a mam-gu annwyl beth amser yn ôl yn 96 oed. Roedd yn aelod ffyddlon yn Eglwys y Crwys. Rai blynyddoedd yn ôl, daeth Mrs Blodwen Morris a'i gŵr, y diweddar Gwilli Morris, i Gaerdydd o fferm Brynrodyn, Y Borth, Ceredigion.

**Cwlwm Busnes Caerdydd**
Gall y rhai hynny o ddarllenwyr *Y Dinesydd* sydd am wneud ychydig o'u busnes trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg fod â diddordeb mewn cyfeirlyfr a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Cwlwm Busnes Cylch Caerdydd. Os ŷch chi mewn busnes eich hun, ac os carech chi ymuno â'r cwlwm, cysylltwch â'r ysgrifennydd, Ceri Preece, Hugh James, Tŷ Arlbee, Heol y Brodyr Llwydion, Caerdydd CF1 4QB (Ffôn 01222-224871, est 2228.) Edrycha'r *Dinesydd* ymlaen at weld rhai o aelodau'r cwlwm yn hysbysebu yn y papur gan mai codi proffil y Gymraeg yn y ddinas yw ein hamcanion ni ein dau.

**Adweitheg**
Un o'r rhai sydd wedi mentro i'r byd busnes hwn yw Mrs Jeni Vaughan-Owen o Dreorci. Mae hi wedi cychwyn clinig Adweitheg yn y Clinig Iechyd Naturiol yn Ffordd y Gadeirlan, Caerdydd. Ei rhif ffôn yw (01222) 222221. Mae Mrs Owen yn enedigol o Fangor a bu'n athrawes ymarfer corff yn Ysgol Gyfun Llanhari am naw mlynedd cyn i brofedigaeth yn y teulu ei gorfodi i adael. Roedd ganddi ddiddordeb mewn meddyginiaeth amgen ers tro ac yn 1990 llwyddodd i ennill cymwysterau o safon uchel fel Adweithegydd. Cyfle gwych i ddinasyddion ddilyn ôl eu traed trwy gyfrwng y Gymraeg! Gall y rhai sydd am ragor o wybodaeth droi at y tudalennau hysbysebion.

**Daniel** - Dymuna teulu y diweddar Barchedig Moelwyn Daniel gydnabod yn ddiolchgar pob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt ar adeg colli un a oedd mor annwyl. Diolch hefyd am y cyfraniadau hael tuag at Gymorth Cristnogol.

**Cydymdeimlir** â Shan Gillard, Yr Eglwys Newydd a'r teulu oll yn eu profedigaeth o golli ei thad, y Parch Emrys Ebeneser, Llanelli. Cynhaliwyd yr angladd yng Nghapel y Tabernacl, Llanelli ar 5 Chwefror.

**Llongyfarchiadau** i Siân Phillips, Rhiwbina ar ennill ysgoloriaeth i barhau â'i hastudiaethau. Mae hi'n ferch i John a Rae Phillips sef Arglwydd Faer a Maeres Caerdydd.

**Cydymdeimlir** â Walford Jenkins, Rhiwbina a'r teulu ar golli ei frawd, Wyn Jenkins, Trimsaran a fu'n Faer Llanelli ar un adeg.

**Cynhaliwyd** gyrfa chwist yng Nghymdeithas Gymraeg Rhiwbina nos Lun, 3 Chwefror. Edrychir ymlaen yn arw at Eisteddfod, flynyddol y Gymdeithas nos Lun, 24 Mawrth am 6.30 p.m. yn festri capel Bethany yn Heol Llanisien Fach. Cynhelir Cymanfa Ganu dan arweiniad Alun Guy yng Nghapel Beulah Rhiwbina nos Sul, 13 Ebrill am 8 p.m. Cofiwch ddod! Mae croeso cynnes i bawb.

**Yng Nghymdeithas Gymraeg Penarth** nos Fercher, 5 Chwefror, cafwyd Seiat Holi a drefnwyd gan Maxwell Evans. Cadeirydd y noson oedd Hywel Jones a'r panel oedd Falmai Griffiths, Gwilym Roberts a David Thomas.

**Llongyfarchiadau** i Gethin Lewis, prifathro presennol Ysgol Gynradd Gabalfa, ar gael ei benodi'n Ysgrifennydd Cymru yr N.U.T. i olynu Dan Roberts a ymddeolodd o'r swydd y llynedd. Bu'n brifathro yn Gabalfa am ddwy flynedd ar bymtheg ac mae e'n aelod o Bwyllgor Gwaith yr N.U.T. Ar hyn o bryd fe yw Ysgrifennydd yr N.U.T. yng Nghaerdydd.

**Cydymdeimlir** â Carol Bradley, Draenen Pen-y-graig *(Thornhill)*, Llanisien ar golli ei thad yn ystod mis Rhagfyr. Mae Carol yn un o arweinwyr Cylch Meithrin Rhiwbina.

**Bu farw** Nigel Hughes, Ystum Taf ar 6 Ionawr yn Ysbyty'r Mynydd Bychan ac yntau ond yn 33 oed. Cydymdeimlir â'i weddw Louise a'r teulu oll yn eu colled. Dysgodd Nigel a Louise Gymraeg yng Nghanolfan yr Urdd, Caerdydd a daeth y ddau yn rhugl yn yr iaith.

**Cynhaliwyd** cyngerdd gan Dafydd Iwan yn Neuadd Ysgol Gyfun Glantaf nos Wener 31 Ionawr a chafwyd noson i'w chofio. Trefnwyd y noson gan y Gymdeithas Rieni.

**Bore coffi yn Rhiwbina**
Fe fu bore coffi llwyddiannus tuag at achos da yn Rhiwbina yn ddiweddar. Ann Hughes a'i trefnodd ac mae'n dymuno diolch i bawb a'i cefnogodd. Anfonwyd £50 i Mrs Eirwen Evans, Porthcawl, tuag at gronfa ariannol Eisteddfod Genedlaethol Pen-y-bont ar Ogwr 1998.

**Llongyfarchion** i Gerald Davies ar gael ei benodi'n gadeirydd newydd Bwrdd Ymgynghorol HTV Cymru. Mae wedi bod yn aelod gwerthfawr o'r bwrdd er Mai 1978. Mae'n 51 oed erbyn hyn, ond daliwn i gofio amdano'n gwibio i lawr yr asgell tra'n chwarae i Gymru a'r Llewod. Mae'n ohebydd rygbi i'r *Times* ar hyn o bryd ac yn byw ger Brynbuga.



Gerald Davies *Llun HTV*

# Newyddion o'r Eglwysi... dan ofal Gwilym Dafydd

## Anrhegu Rowland Owen, Penarth

Yn ddiweddar fe fu cyfarfod yn Eglwys Bethel, Penarth, i anrhegu Rowland Owen i ddynodi ei ymddeoliad yn ysgrifennydd yr eglwys am gyfnod o ddeng mlynedd. Dymuna darllenwyr *Y Dinesydd* yn dda iddo wedi tymor hir o waith. Yn y llun isod, gwelir Mr Edryd Lloyd (chwith) a'r Parchedig Meurwyn Williams (canol) gyda Mr Owen.



## Bwydo'r digartref ar brynhawn Sul

Dechreuwyd y cynllun ar ddechrau'r 1980au pan fu Mrs Dafydd Davies, ei merch Megan a rhai o fyfyrwyr Coleg y Bedyddwyr, Heol Richmond, yn mynd â chawl twym o gwmpas Caerdydd ar nos Sadwrn i'w roi i gynhesu'r bobl ddigartref a oedd yn cysgu allan yn oerfel y nos. Agorwyd drysau'r Tabernacl ar brynhawn Sul ar eu cais a gofynnwyd am gydweithrediad yr aelodau. Am rai blynyddoedd bu aelodau'r Tabernacl yn cynnal y gwasanaeth o dan arweiniad Megan ac yna Glyn a Diana Owen.

Yn hwyrach gwirfoddolodd rhai o gapeli Cymraeg Caerdydd a'r cylch fesul un i ysgwyddo'r baich gyda'r Tabernacl a bu y diweddar Ann Meurig Jones yn trefnu amserlen y cydweithredu. Erbyn heddiw mae saith o eglwysi yn rhan o'r cynllun – Y Tabernacl, Minny Street, Dewi Sant, Y Crwys, Yr Eglwys Efengylaidd, Efailisaf a Gwaelod-y-garth – y saith yn rhannu'r gwaith o dan ofal Mary Thomas, Y Tabernacl. Ond erys y pen trymaf o'r gwaith o hyd ar ysgwyddau aelodau'r Tabernacl.

I'r rhai ohonoch sydd eisoes yn rhoi eich gwasanaeth, fe wyddoch mai'r ddarpariaeth a roddir yw te, brechdanau a bisgedi. Mae'n bwysig i ni sylweddoli fod nifer y digartref ar gynnydd yn ddirfawr yn y ddinas a thrwy'r wlad. Ein dyletswydd ni fel Cristionogion yw ceisio helpu'r anffodusion hyn – er mai cyffwrdd ag ymylon y broblem yn unig yr ydym ar hyn o bryd.

Gallwch gefnogi'r cynllun drwy ddarparu brechdanau neu/a rhoi help ar brynhawn Sul. Pe hoffech gynorthwyo, mae angen rhagor o wirfoddolwyr i fod yn rhan o'r gwasanaeth dyngarol hwn. Cysylltwch ag Eilonwy Jones (890440).

Cofiwch pan fyddwch yn siopa yng Nghaerdydd eich bod yn prynu copi o'r cylchgrawn *Big Issue* sydd yn gynllun i alluogi'r di-waith i ennill ychydig o arian er mwyn adfer eu hunan-barch.

**Eilonwy Jones**



## Tîm Cwis Eglwys Dewi Sant

Mae'r tîm cwis o Eglwys Dewi Sant wedi bod yn cystadlu eto. Daeth yn drydydd allan o'r deunaw tîm oedd yn bresennol mewn cwis a drefnwyd gan Eglwys Sant Margaret, Y Rhath, ar ddiwedd Ionawr. Eglwys Sant German oedd gyntaf â 96 o bwyntiau allan o 120. Tîm o Sblot oedd yn ail gyda 91, dau bwynt yn unig o flaen Dewi Sant. Aelodau'r tîm yw Keith Griffiths, Andrea Miller, Ian Miller a Jane Ross.

## Balchder Dathlu

Rhyw naws o ddathlu ac o falchder gwirioneddol oedd yn cyniwair drwy'r gynulleidfa yn Eglwys Dewi Sant, Caerdydd fore Sul, 19 Ionawr pryd y gweinyddwyd yn y Cymun Bendigaid gan y Parchedig Enid Morgan. Fe'i croesawyd yn llawen i blith y gynulleidfa a fu'n gyson gefnogol i ferched yn offeiriaid yn yr Eglwys yng Nghymru.

Wrth iddi hithau ddatgan yn ei phregeth ei bod eisoes wedi teithio rhan o'r ffordd ac yn awr yn cychwyn ar hyd rhan newydd o'r daith, braf oedd i ninnau gael y cyfle o'i hebrwng bwt bach o'r daith honno sydd o'i blaen. Bydded i ras a bendith Duw fod gydag Enid a'r rhai eraill a ordeiniwyd ac ar yr offeiriadaeth y'u gelwid nhw iddi, yw dyhead aelodau Eglwys Dewi Sant.

**Margaret Lloyd Hughes**

## Bethel, Rhiwbina

Cafodd aelodau Bethel wahoddiad i noson gymdeithasol yn Salem, Treganna, 15 Ionawr. Bu rhai o blant a phobl ifanc Bethel, dan arweiniad Mrs Tamsin Llwyd Graves, yn diddanu'r gynulleidfa drwy ganu, llefaru a dawnsio. Yn hwyrach tro aelodau hŷn y ddwy eglwys oedd cymeryd rhan mewn cwis a drefnwyd gan Owena ac Eifion Hopwood. Cyn mwynhau'r lluniaeth a drefnwyd gan aelodau Salem fe ddiolchodd y Parchedig D. Haydn Thomas i bawb a gymerodd ran.

## Marwolaeth un o'r aelodau

Bu farw Mr Sam Williams, Heol Llanishen Fach, Rhiwbina, ar 6 Ionawr. Fe symudodd Sam a'i wraig Phyllis i Gaerdydd o ardal Port Talbot yn Hydref 1995 i fod yn nes at eu teulu. O fewn ychydig wythnosau roedd y ddau wedi ymaelodi yn eu heglwys Gymraeg leol, Bethel, ym Maes-y-deri.

Bu Sam yn rheolwr yng ngwaith dur Port Talbot am flynyddoedd lawer, ac yn aelod o Gyngor Gorllewin Morgannwg. Canu a bowlio oedd rhai o'i brif ddiddordebau er pan ddaeth i Gaerdydd ac roedd cynrychiolwyr o'r côr meibion lleol a'r clwb bowlio yn y gwasanaeth a gynhaliwyd yn Amlosgfa Draenen Pen-y-graig (*Thornhill*), 16 Ionawr, dan arweiniad ei gyfaill, y Parchedig Ivor Cassam.

# NEWYDDION YR URDD

# Gweithgareddau Hanner Tymor yr Urdd

Hoffai'r Urdd ddiolch i bawb a gymerodd ran yng ngweithgareddau hanner tymor mis Chwefror. Cynigwyd nifer o weithgareddau i aelodau'r Urdd yn ystod y gwyliau gan gynnwys Cynllun Chwarae, Ysgolion Pêl-droed, Cwrs Animeiddio, Gweithdy Samba, Cwrs Merlota a Gweithdy Paniau Dur. Cafwyd ymateb gwych i bob gweithgaredd a bu raid siomi nifer fawr na chafwyd lle iddynt ar y cyrsiau.

Bwriedir trefnu rhagor o weithgareddau yn ystod gwyliau'r Pasg, a chewch wybodaeth trwy'r ysgol cyn bo hir!







## Codi Arian

Hoffai'r Urdd yn Ne Morgannwg ddiolch i blant ysgolion Melin Gruffydd, Bro Eirwg, Y Wern, Mynydd Bychan, Iolo Morgannwg a Phenarth am godi £140 tuag at UNICEF yn ystod Cyngerdd Carolau'r Urdd cyn y Nadolig.



## EISTEDDFODAU DE MORGANNWG 1997

***Dyddiadau Pwysig:***

Eisteddfod Cylch Dwyrain Caerdydd - 6 Mawrth Ysgol Bro Eirwg

Eisteddfod Cylch Gorllewin Caerdydd - 8 Mawrth Ysgol Glantaf

Eisteddfod Gymnasteg a Dawnsio Disgo - 11 Mawrth Ysgol Uwchradd Corpus Christi

Eisteddfod Sir Cynradd De Morgannwg - 22 Mawrth Coleg Colchester Ave.

Eisteddfod Sir Uwchradd De Morgannwg - 22 Mawrth Ysgol Glantaf



# EIN HYSGOLION CYNRADD CYMRAEG

dan ofal B.D. Harries

## YSGOL Y WERN

### Blwyddyn 2

Roedden ni wedi mynd i Sain Ffagan i weld bythynnod Rhyd-y-car. Roedden ni wedi mynd ar y bws i Sain Ffagan. Roedd bythynnod Rhyd-y-car yn arfer bod ym Merthyr amser maith yn ôl. Edrychon ni o gwmpas ymhob tŷ. Roedden ni yn mynd o dŷ i dŷ fel llinell amser. Yn y tŷ cyntaf roedd tân glo a dim ond digon o bethau i fyw. Tân glo oedd yn yr ail dŷ ond roedd mwy o bethau o gwmpas. Roedd yr ail dŷ o 1855, a gwelsom haearn smwddio wrth y tân. Canhwyllau oedd yn rhoi golau yno. Yn y trydydd tŷ roedd cloc tad-cu a gwelsom blât â llun y Frenhines Victoria arno fe. Yn y pedwerydd tŷ gwelsom hen gamera. Roedd e lan yn uchel ar ben y cwpwrdd. Roedd lampau olew yn y pedwerydd tŷ a thap dŵr. Roedd carped ar y llawr yn y pumed tŷ a thrydan. Roedd y tŷ olaf fel ein tai ni, a bath yn lle twba tin.

**Gwilym, Catrin, Sean, Gruffydd, Owen Llewelyn, Tom, Ceri**

### Blwyddyn 3

Buon ni i Sain Ffagan i weld y pentref Celtaidd. Cawsom gyfle i drio rhai o'r gweithgareddau roedd y Celtiaid yn eu gwneud. Dysgom fod y Celtiaid yn meddwl fod holl bŵer person yn y pen. Os oedd y Celtiaid wedi casglu pedwar deg o benglogau roeddent yn meddwl fod nerth pedwar deg o bobol ganddynt pan oedden nhw'n ymladd.

Cawson ni gyfle i wneud bangorwaith. Roedd yn rhaid i ni blethu brigau hyblyg collen. Roedd hyn yn debyg i ffens bren. Er mwyn gwneud y ffens yn gryfach roedd rhaid rhoi dwb arno. Cymysgedd o fwd, dŵr, blew anifeiliaid a gwellt yw dwb. Rhoddon ni ein dwylo yn y cymysgedd a'i roi dros y bangorwaith. Cawson ni lawer o hwyl yn gwneud hyn.

Cawson ni gyfle i wneud edafedd o wlân er mwyn nyddu. Roedd dillad gwlân lliwgar gan y Celtiaid.

Cafodd pawb sioc pan gerddon ni i mewn i'r tŷ cyntaf gan ei fod mor dywyll a myglyd. Roedd pawb yn y grŵp yn falch bod eu tai hwy llawer mwy cyfforddus.

Cafodd pawb amser da yn dysgu pethau newydd a throchi ein dillad heb gael stŵr!

**Marged Jones, Angharad W. Jones, Elinor A. Charles, Dafydd W. Llywelyn, A. Eleri Jones, Lowri A. Philips**

### Blwyddyn 4

Rydyn ni wedi bod yn gwneud gwaith ar gyfathrebu. Rydym wedi bod yn astudio Arwyddion y Ffordd Fawr, Braille, Côd Morse a mwy. Rydyn ni wedi bod yn ddigon ffodus i gael gwraig broffesiynol ar bobl ddall a phobl mud a byddar i ddod i gwrdd â ni fan hyn yn y dosbarth. Enw'r wraig yw Mrs Roberts.

Fe ddaeth Mrs Roberts â ffôn arbennig i'r byddar. Roedd gan y ffôn sgrin ag allweddellau. Roeddech yn teipio i mewn i'r ffôn beth oeddech am ei ddweud a byddai'r person ar ddiwedd y lein yn darllen y ffôn. Fe ddysgodd Mrs Roberts i ni ran o'r gân Saesneg 'Jesus loves me' mewn arwyddion byddar. Fe ddysgodd Mrs Roberts i ni fod pobl fyddar yn edrych ar siâp eich gwefusau ac yn dyfalu beth ydych yn ei ddweud. Fe wnaeth Mrs Roberts i ni ddychmygu sut oedd bywyd heb sŵn. Fe ffeindion ni e'n ddiflas iawn. Fe ddaeth Mrs Roberts i mewn â chloc digidol, sy'n dirgrynu yn y bore, i roi dan obennydd.

Fe ddysgon ni fod yn rhaid trin pobl fyddar yn garedig. Fe ddysgon ni y 5 llafariad yn arwyddion y byddar. Byddwch yn defnyddio 5 bys ar gyfer hyn. Fe ddysgon ni hefyd ein henwau yn arwyddion y byddar.

**Rhys Hughes, Owain Thomas, Elinor Carson**

### Gwaith Maes Daearyddiaeth Blwyddyn 5

Roedd hi'n fore heulog, ac roedd pawb ym Mlwyddyn 5 yn Ysgol y Wern wedi dod ag esgidiau glaw. Roedden ni yn mynd i wneud gwaith maes ym mharc Coed Cochwyn gyferbyn â'r ysgol. Mae yna nant fach yn rhedeg drwy'r goedwig. Ein gwaith ni oedd gweld pa liw oedd dŵr y nant ac os oedd yna sbwriel yno. Oedd y nant yn troelli neu'n mynd yn syth? Beth oedd cyflymder y nant?

Fe wnaethom baratoi taflenni cyn mynd. Roedd rhaid mynd ag offer fel ffon fetr i weld pa mor ddwfn oedd y nant, oriawr amseru i fesur cyflymder y nant, a bag plastig i gasglu esiamplau o'r planhigion oedd yn tyfu ar lannau'r nant. Roedd yna sbwriel yn llygru'r nant, sef pecynnau creision, cwpan, poteli plastig, hyd yn oed darn o hen bram. Fe welsom fod y dŵr wedi erydu'r tir.

Ar ôl i bawb orffen eu tasgiau, daethom nôl i'r ysgol. Daeth y ddau ddosbarth at ei gilydd i weld y canlyniadau. Sylwom fod y dŵr yn fwdlyd mewn rhai mannau ac yn glir yn y mannau eraill. Roedd gwahanol blanhigion mewn gwahanol fannau. Hefyd roedd llif y nant mewn rhai mannau yn gyflymach nag yn y llefydd eraill.

Cawsom fore pleserus iawn.

**Alun, Elonwy, Angharad, Simon, John**



**Llongyfarchiadau** i Nadia Turner (Blwyddyn 6), Miriam Turner (Blwyddyn 4) a David Griffiths (Blwyddyn 3) a gafodd lwyddiant yn ddiweddar ar eu beiciau yng nghystadleuaeth Cymdeithas Beicio Ysgolion Cymru, Pencampwriaeth Dringo Mynydd.



**Llongyfarchiadau** i Selyf Shapey (Bl. 6) ar gael ei ddewis yn arweinydd cerddorfa ysgolion cynradd y sir. Pob hwyl i ti Selyf gyda'r arwain.




## ARWYDDION DA I'R GYMRAEG

Mae siopau trin gwallt yng Nghaerdydd ymhlith y cyrff sydd newydd ddewis hybu eu hunain yn ddwyieithog - ac wedi cael cynnig grantiau gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg i hwyluso'r gwaith.

Mae cadwyn siopau trin gwallt y Brodyr Lazarou yng Nghaerdydd a'r cyffiniau ar fin cynhyrchu tystysgrifau dwyieithog i'w cyflwyno i blant sydd wedi dioddef artaith y siswrn. Dywedodd Tassius Lazarou, un o gyfarwyddwyr y cwmni: 'Mae yna fwy o siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd nag mewn unrhyw ardal arall o Gymru. Rydym yn gwerthfawrogi'r ffaith ein bod ym mhrifddinas Cymru ac am wasanaethu'n cwsmeriaid yn y Gymraeg a'r Saesneg.'

Mae'r Bwrdd yn frwd i gefnogi cyrff preifat a gwirfoddol sydd am ddechrau defnyddio'r Gymraeg trwy dalu hyd at 50% o gostau cynhyrchu pamffledi, llyfrynnau ac arwyddion dwyieithog i fyny at uchafswm o £500.

Mae Bws Caerdydd hefyd wedi derbyn arian gan y Bwrdd yn ddiweddar ar gyfer cynhyrchu defnyddiau Cymraeg.

**Y mae** Cymdeithas Diabetes Prydain Cymru wedi agor canolfan newydd yng Nghaerdydd lle y bydd cyngor a gwasanaeth ar gael yn y Gymraeg. Am fanylion pellach, cysylltwch â Nia Roberts, CDP Cymru, Plas Gwynt, Clos Sophia, Caerdydd CF1 9TD (01222-668276).

**Mae** Meinir Morgan, sy'n gynorthwy-ydd gweinyddol yn swyddfa Bwrdd Rheoli Llywodraeth Leol (Cymru) yn y Bont-faen, wrthi ar hyn o bryd yn dilyn cwrs Prentisiaeth Fodern gyda Chyngor Hyfforddi a Menter De Morgannwg, a hynny trwy gyfrwng y Gymraeg. Llongyfarchiadau iddi am fod y person cyntaf i ddilyn cwrs gyda'r Cyngor trwy'r Gymraeg.

**Llongyfarchiadau** i Siôn Brynach ar gael ei benodi'n swyddog cysylltiadau cyhoeddus yn swyddfa Masnachu Nwy Prydain yng Nghaerdydd. Cyn hynny bu'n swyddog cyhoeddusrwydd gyda Phlaid Cymru. Y mae'n briod ac yn byw yn Nhreganna, ac yn fab i Cynthia a Saunders Davies.

**Mae** partneriaeth cyfreithwyr Edwards Geldard wedi derbyn pum partner newydd yn ddiweddar, ac yn eu plith Elin Morris o Landdeiniol ger Aberystwyth, sy'n ferch i John Morris, brawd Mrs Rhiannon Alun Evans (a fu, wrth gwrs, yn un o drigolion Caerdydd am flynyddoedd, cyn mudo i'r Gogledd). Ymhlith pethau eraill, Elin fydd yn gyfrifol am oruchwylio cyfieithu dogfennaeth i'r Gymraeg ar ran y cwmni.

Llongyfarchiadau hefyd i Osian Mars-Jones, o Ruthun yn wreiddiol, ar gael ei benodi'n gyfreithiwr yng nghwmni Eversheds, ac i un o bartneriaid yr un cwmni, Peter Watkin Jones, ar gael ei dderbyn yn gymrawd Sefydliad Siartredig y Cyflafareddwyr.

**Estynnwn** ein cydymdeimlad i deulu Mr Trefor John Lewis, Rhydhelig Ave., a fu farw'n sydyn ar 3 Chwefror.

**Bu farw** J. Idris Evans, a fu'n uwch-gynhyrchydd yn Adran Ysgolion y BBC am flynyddoedd. Ef, mae'n debyg, oedd y cyntaf i gynhyrchu rhaglenni dysgu Cymraeg i oedolion ar gyfer y BBC. Cydymdeimlwn â'r holl deulu yn eu colled.

# YSGOL GLANTAF




## Llwyddiant arall

Parhau y mae llwyddiant arbennig Rhodri Jones ym myd y bêl-droed. Cofiwn iddo yn ddiweddar arwyddo i dîm Manceinion Unedig. Yn ystod yr wythnosau diwethaf cafodd ei ddewis i chwarae dros ei wlad yn y tîm dan 16 oed. Eisoes chwaraeodd yn y gemau yn erbyn Gweriniaeth Iwerddon a Lloegr. Edrycha ymlaen yn awr at y gemau yn erbyn Iwerddon, Yr Alban, Yr Iseldiroedd a Sbaen. Gwyddom fod chwarae dros ei wlad yn gwireddu un o freuddwydion Rhodri.

## Sglefrfyrddio

Camp boblogaidd iawn ymhlith bechgyn y dyddiau hyn yw sglefrfyrddio. Mae Richard Taylor, disgybl ym Mlwyddyn 11 yn dipyn o bencampwr yn y maes. Yn ddiweddar bu'n cystadlu mewn pencampwriaeth yn Amsterdam. Llwyddodd i ddod yn gyntaf yn y grŵp i Arbenigwyr a chweched yn y grŵp Proffesiynol. Enillodd £200 am ei ymdrechion.

## Cystadleuaeth Iolo Morganwg

Daeth llwyddiant eleni eto i rai o ddisgyblion Glantaf yn y gystadleuaeth hon sy'n cael ei chynnal yn flynyddol gan y papur bro *Tafod Elái*. Gethin James enillodd y gystadleuaeth i flwyddyn 7 gyda'i gerdd 'Breuddwyd'. Roedd Emyr James yn gydradd drydydd a daeth Carys Stephen, Rhodri Davies, Anna Saunders, Siân Griffiths a Sally Jennings yn agos i'r brig. Yn y gystadleuaeth i flynyddoedd 8 a 9 roedd Siân Semmens yn gydradd ail gyda Gwenllian Glyn yn dod yn agos i'r brig. Cafodd Clare Jennings, Benjamin Phillips, Siwan Dafydd, Eleri Randall, Elin Rowlands ac Elen Evans eu canmol am eu cynigion. Llongyfarchiadau i'r beirdd i gyd!

***Breuddwyd***

Breuddwydiais am wlad hynod o dlos,
Cysgod a hedd dros waun a rhos;
Dim llygredd, ceir na budreddi mwg,
Popeth yn berffaith, dim un peth drwg.

Breuddwydiais am wlad gyda blodau a choed,
Adar bach prydferth yn canu'n ddi-oed;
Plant ac oedolion yn dawnsio trwy'r dydd,
Pawb yn gyfartal a phawb yn rhydd.

***Gethin James***



*Gethin James*

# Y CAMPAU dan ofal Thomas Davies

## Y Bêl Hirgron



Ni fu'n rhaid i mi bendroni'n hir cyn cael hyd i'r pwnc y tro hwn - pwnc fydd yn codi hiraeth mawr ar y rhan fwyaf ohonom, yn ddiau.

Parc y 'Cardiff Arms', a ddaeth yn Faes Cenedlaethol ym mis Ebrill 1984 - Y Maes Mawr, dyna ichi bwnc, onid e? Chwaraewyd yr ornest ryngwladol gyntaf arno ar 12 Ebrill, 1884, a'r enwocaf ohonynt i gyd yw honno ar 16 Rhagfyr, 1905, lle y digwyddodd hyn hanner ffordd trwy'r hanner cyntaf:

"Dim sgôr yma eto. Mae'r sgrym hon tua 30 o lathenni o linell gais yr ymwelwyr ac i'r dde o'r pyst - mae Dici Owen yn rhoi'r bêl i mewn ac mae ei flaenwyr yn ei chael hi, ac mae'r mewnwr yn rhedeg ar y dde â Percy Bush a Gwyn Nicholls y tu allan iddo, ond yn lle pasio iddyn nhw, mae'n taflu pas wrthol wych dros y sgrym i Cliff Pritchard oedd yn disgwyl amdani. (Blaenwr oedd Pritchard, ond chwaraeai'n grwydryn y tu allan i'r sgrym y prynhawn hwnnw). Mae'n rhedeg nerth ei draed gyda Rhys Gabe a Tedi Morgan, a dau sy'n eu herbyn nhw, Deans a McGregor, ac mae'r bêl gan Gabe sy'n gorfodi McGregor i adael yr asgellwr - nawr Gabe i Morgan ac mae'n gais yn y gornel!"

Buasent yn ymarfer y symudiad hwnnw ar y dydd Iau ac fe weithiodd yn berffaith, a churwyd y Crysau Duon o 3 phwynt i ddim. Dyna'r unig ornest o'u 33 iddynt ei cholli yn Ewrop a sgoriasant 868 o bwyntiau yn erbyn 47.

Ni fûm yno'r prynhawn hwnnw, ond fel pob Cymro arall, fe'i gwelais hi. Gwelais 89 o ornestau Cymru yn y Bencampwriaeth ar y maes hwn, a 54 buddugoliaeth; er 1983 y mae'r record wedi ei difwyno - colli chwe gwaith yn erbyn Iwerddon, bum gwaith yn erbyn Ffrainc er 1984, a phedair gwaith yn erbyn yr Alban er 1982. Ond ddwywaith y bu'r Saeson yn fuddugoliaethus yng Nghaerdydd er 1963 - yn 1991 a 1995.

Onid ydyw hi'n hen bryd inni newid ein maes cenedlaethol felly? Ydyw, siŵr o fod, ar sail yr aflwyddiant yn y pedair blynedd ar ddeg diwethaf, ond mae atgofion lu'n dod i ddyn wrth fwrw golwg yn ôl dros y blynyddoedd er 1951 pan welais i fy ngornest ryngwladol gyntaf ar y maes. Cais Bleddyn Williams yn erbyn De Affrica ym 1951, cais Cliff Morgan yn 1953 yn erbyn Iwerddon, rhediad cyfareddol Stuart Watkins yn erbyn y Ffrancod yn 1966, camp anghyffredin Keith Jarrett yn 1967, yna Barry John yn gadael capten Lloegr, Budge Rogers, ar ei hyd cyn sgorio i goroni'r fuddugoliaeth yn 1969, ddechrau'r ail gyfnod euraid. Ac yn 1975 hanner arall y bartneriaeth ddihafal honno, Gareth Edwards, yn cael meddiant oddi wrth ei gapten, Mervyn Davies, yn ei hanner ei hun yn erbyn yr Albanwyr cyn rhedeg i anfarwoldeb. Hwb arall i Arneill, cic ymlaen, a chyflwynwyd yr orchest amhosibl. A beth am gais Ieuan Evans yn 1988 - a'r canu? Ie, y canu sy'n rhan annatod o'n gêm.

Byddaf fi'n drist iawn am hanner awr wedi pedwar, 15 Mawrth, wedi i mi weld fy ngornest olaf ar Y Maes Mawr hwn. Ond os cawn ni guro Lloegr, caiff y tristwch aros tan y Sul neu tan 1999 hyd yn oed.




### ENILLYDD CRYS RYGBI A RHESWM I FOD YN SIRIOL

Mae gan Siriol Dafydd, 8 oed, sy'n ddisgybl yn Ysgol Pen-cae, Llandaf, reswm i wenu. Allan o 3,000 a roddodd gynnig arni yng nghystadleuaeth rygbi Bwrdd yr Iaith eleni yn Eisteddfodau'r Urdd a'r Genedlaethol a'r Sioe Amaethyddol Frenhinol, Siriol oedd un o'r pedwar enillydd - ac fe dderbyniodd grys rygbi Cymru wedi ei arwyddo gan y tîm yn wobr.

Dewiswyd y buddugwyr ffodus ar *Heno* yn ddiweddar gan un sydd ei hun yn gwybod cryn dipyn am lwyddiant ym maes rygbi - Jonathan Davies, sydd erbyn hyn yn byw yn Llandaf hefyd, a'i blant yn mynychu'r un ysgol â Siriol.



John Walter Jones, Prif Weithredwr Bwrdd yr Iaith Gymraeg, yn cyflwyno'r crys wedi ei arwyddo i Siriol Dafydd, Ysgol Pen-cae, Llandaf. Scott Davies, mab Jonathan Davies, sydd yn eu gwylio.

* * * *

## Pêl-rwyd



Braf yw medru sôn am fwrlwm parhaol pêl-rwyd yng Nghaerdydd a'r cylch. Ieuenctid Athrofa Prifysgol Cymru Caerdydd (o dan 14eg) ac Ieuenctid St Peter's (o dan 16eg) sydd ar frig Cynghrair Iau De Morgannwg ar hyn o bryd ac YMCA Y Barri sydd ar frig Cynghrair Bro Morgannwg.

Roedd dwy ferch o Gaerdydd, Lisa Morgan (capten) a Sally Williams yn aelodau o dîm o dan 16eg Cymru a gollodd o 54-27 yn erbyn Lloegr yng Nglannau Dyfrdwy fis Chwefror. Julia Longville, darlithwraig yn yr Athrofa, yw'r hyfforddwraig y tymor hwn. Cynhelir Pencampwriaeth Ysgolion Cynradd SWALEC yn Athrofa Chwaraeon Cymru ar 26 Ebrill eleni. Rhag i chi feddwl mai'r ieuenctid yn unig sydd wrthi'n chwarae, braf yw cydnabod mai Caerdydd oedd buddugwyr Twrnameint Feteraniaid SWALEC y tymor hwn.

**Angharad Dafydd-Styles**

# Dysgwyr y Ddinas

dan ofal Gareth Kiff




*Croeso i dudalen Dysgwyr y Ddinas. Mae'n galonogol iawn i weld cymaint o bobl yn dysgu Cymraeg yn ardal Caerdydd. Dyna pam mae'r mudiad CYD wedi fy mhenodi yn Drefnydd rhan-amser yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg.*

*Bob mis yn y tudalen hwn byddaf yn rhoi gwybod i chi am ddigwyddiadau sydd wedi cael eu trefnu ar gyfer dysgwyr yn yr ardal. Mae nifer o bethau newydd ar fin dechrau, gan gynnwys Nosweithiau i'r Teulu, yn fuan iawn. Felly croeso i chi gysylltu â mi ar (01222) 486469 am ragor o wybodaeth am weithgareddau gwahanol neu os ydych am ymuno â CYD, y mudiad sy'n dod â dysgwyr a Chymry Cymraeg ynghyd.*

## CLWB CLEBRAN NEWYDD

'Siawns am Sgwrs' - Dewch i'r Ganolfan Dysgu Cymraeg, 22 Park Place , rhwng 1-2pm ar y dyddiau isod i gael siawns i siarad â dysgwyr eraill neu glywed siaradwr neu siaradwraig: Dydd Mawrth 25 Mawrth, Dydd Mawrth 22 Ebrill, Dydd Mawrth 20 Mai, Dydd Mawrth 17 Mehefin.

## CLWB GWERTHFAWROGI DRAMÂU

Os ydych eisiau gweld dramâu Cymraeg mae Miranda Morton yn fodlon mynd â phobl i'w gweld. Bydd cyfle i gymdeithasu a thrafod y dramâu ac wrth gwrs cael llawer o hwyl!

Bydd perfformiad o 'Yr Aduniad' yn Theatr y Sherman ar nos Fawrth 11 Mawrth a nos Fercher 12 Mawrth. Felly os ydych eisiau gweld y ddrama hon neu ddramâu eraill yn y dyfodol, cysylltwch â Miranda ar (01222) 253868.

## CYRSIAU CYMRAEG NEWYDD

Ydych chi'n sefyll arholiad Defnyddio'r Gymraeg eleni? Beth am ymuno ag un o ddosbarthiadau newydd y Ganolfan Dysgu Cymraeg. Bydd cyrsiau yn y bore, prynhawn a'r nos yn dechrau ym mis Ebrill. Cysylltwch â Helen Prosser (01222) 390980.

Bydd cyrsiau Cymraeg Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn dechrau ym mis Mawrth ar gyfer dysgwyr o bob safon. Bydd y cyrsiau yn llawer o hwyl a bydd siawns i fynd i'r dafarn bob wythnos gyda thiwtoriaid a dysgwyr eraill! Ffoniwch (01222) 486469.

* * *

## ATHRAWON I'R WLADFA

Yn ystod mis Mawrth bydd tri athro Cymraeg yn gadael am y Wladfa i dreulio blwyddyn yno yn dysgu Cymraeg i ddysgwyr o bob oed. Bydd Hazel Charles Evans, athrawes o Lanelli, yn ymgartrefu yn Esquel, tref fechan wrth droed yr Andes; Dewi Wyn Evans, darlithydd ym Mhrifysgol Dulyn, yn mynd i Drelew, dinas o 80,000 o drigolion yn Nhalaith Chubut; a Sian Eleri Hughes, darlithydd ifanc o Goleg y Drindod, Caerfyrddin yn ymsefydlu yn y Gaiman, tref sy'n galon i'r bywyd Cymreig ym Mhatagonia.

Cam cyntaf Cynllun yr Iaith Gymraeg yn Ariannin, oedd dewis y tri athro hyn. Bydd y cynllun yn cael cefnogaeth ariannol gan y Swyddfa Gymreig, a gweinyddir y cynllun gan y Cyngor Prydeinig. Bydd pedwar o gynrychiolwyr yn llywio'r gwaith ac yn cydweithio â'i gilydd.

Yn ychwanegol at Gwyn Jones o'r Swyddfa Gymreig a David Higgs o'r Cyngor Prydeinig, bydd y cynllun yn dibynnu'n drwm ar brofiad Dr Robert Owen Jones, Cyfarwyddwr y Ganolfan Dysgu Cymraeg i Oedolion sy'n rhan o Adran y Gymraeg yn y Brifysgol yng Nghaerdydd. Bu Dr Jones yn y Wladfa fis Ebrill 1996 i wneud arolwg o'r sefyllfa yno er mwyn paratoi adroddiad o'r posibiliadau o gyflawni'r cynllun arfaethedig.

Shân Emlyn, Ysgrifennydd Cymdeithas Cymry Ariannin a chyn-olygydd *Y Dinesydd*, yw'r pedwerydd aelod o'r grŵp. Trwy ei hymdrechion hi ar ran y Gymdeithas yr hyrwyddwyd cynllun gwirfoddol dros y chwe mlynedd diwethaf. Oni bai am lwyddiant y cynllun hwnnw a'i hymdrechion hi, mae'n debyg na fyddai'r cynllun presennol yn bosibl.

## DYDDIADUR O DDIGWYDDIADAU - CAERDYDD A'R FRO

| | |
|---|---|
| **Pob dydd Mercher** 12.00 - 2.00pm | Clwb Coffi, Clwb Ifor Bach, Womanby St., Caerdydd Ffoniwch Christine Franks 01222 513046 |
| **Pob nos Iau** 9.15pm | Siawns i gael peint neu sudd oren os dych chi'n gyrru a siarad llawer o Gymraeg (gobeithio!). Lolfa Gwesty Parc y Rhath (Roath Park Hotel) Heol y Ddinas (City Road) |
| **Pob bore Gwener** 9.45 - 11.45am | Clwb Coffi y Barri, Palmerston Centre Christine Franks 01222 513046 |
| **Pob dydd Gwener** 1.00pm - 3.00pm | Clwb Coffi Treganna, Canolfan yr Urdd, Heol Conwy, Caerdydd. Ffoniwch Christine Franks 513046 |
| **Pob dydd Gwener** Amser cinio | Mae nifer o Gymry Cymraeg a dysgwyr yn cwrdd i sgwrsio'n anffurfiol yn lolfa y 'Duke of Wellington' yn Y Bont-faen. |
| **Pob bore Sadwrn** 10.45am | Mae cyfle arall i ymarfer eich Cymraeg dros baned o goffi yn Festri'r Tabernacl, Yr Ais (The Hayes), Caerdydd. Ffoniwch Chris Rees-Woodward 499593 |
| **Pob bore Sadwrn** 11.00am - 2.00pm | Clwb Sadwrn ACEN, y cyfle i ymarfer eich Cymraeg a chwrdd â ffrindiau newydd. Am ragor o fanylion ffoniwch 01222 665455. |
| **Yn ôl y galw** | Cymorthfeydd. Y cyfle i ddysgwyr neu diwtoriaid drafod eu problemau gyda gwaith neu gyrsiau. Ffoniwch Gill Stephen 01222 250439 (Trefnwyd gan Gonsortiwm Caerdydd a'r Fro, Cymraeg i Oedolion) |

Am fanylion pellach ynglŷn â chyrsiau Cymraeg cysylltwch â GILL STEPHEN Tiwtor - Drefnydd Consortiwm Dysgu Cymraeg i Oedolion Caerdydd a'r Fro yng Ngholeg Glan Hafren, Y Parêd, Caerdydd (01222) 250439

CBAC WJEC

# SIOP LYFRAU

- CYN-BAPURAU, MEYSYDD LLAFUR
- CYHOEDDIADAU'R UNED IAITH
- LLYFRAU GOSOD TGAU A SAFON 'UWCH'
- LLAWLYFRAU ASTUDIO
- CYHOEDDIADAU CILT
- ADNODDAU AR GYFER Y DYSGWYR
- CD-ROMS, FIDEOS + PHOSTERI
- ARCHEBION POST

**AR AGOR**
**LLUN - GWENER**
**9.00am - 5.00pm**

245 Rhodfa'r Gorllewin Llandaf CAERDYDD CF5 2YX
☎ (01222) 265063 (Cyhoeddiadau/Cyffredinol)
☎ (01222) 265112 (Cyn-bapurau, Meysydd Llafur)
FFACS: (01222) 575987



## Gwersi Ffrangeg a Sbaeneg

gan Athrawes Raddedig a Brwdfrydig.
Dysgir hyd at TGAU neu Lefel 'A'.
Croeso hefyd i ddechreuwyr.
Cysylltwch â Lowri Williams:
**Ffôn: (01222) 465580**



## Eleanor Jones

Gwasanaeth Cyfrifon a Threth Incwm
yn cynnig help gyda
**HUNAN ASESU**
**CADW CYFRIFON**
**PARATOI CYFRIFON**
**LLENWI FFURFLENNI TRETH INCWM**
**TALU WRTH ENNILL**
Ffoniwch:
**01222 - 561906**



## PARTNERIAETH ORCHARD DAVIES

**Gofal cyfeillgar i gwmniau bach ac unigolion**

***Gwasanaethau Busnes i'r Diwydiant Cyfryngau***
***Gwasanaethau Ariannol a Chyfrifon***
(yn cynnwys Hunan Asesiad a chyfrifon personol)
***Gwasanaethau Busnes***
***Gwasanaethau a Hyfforddiant Technoleg Gwybodaeth***

**Ffoniwch 01222 251011 neu ysgrifennwch: Siambrau'r Bae, Stryd Gorllewin Bute, Bae Caerdydd, CAERDYDD, CF1 6HG.**



## Reflexology

# ADWEITHEG

**TYNDRA? TENSIWN?**
**POENAU CEFN?**
**PROBLEM IECHYD?**

Gall tylino'r traed hybu'r corff
i iachau ac ymlacio

**Jeni Vaughan-Owen**
Adweithegydd
D.D.S.R.

**CLINIG IECHYD NATURIOL,**
**98 FFORDD GADEIRLAN, CAERDYDD**
**Ffôn: 01222 222221 / 01443 775647**
**Ffôn Symudol: 0421 427254**

Traed iach = Corff iach



Mae **Cylch Meithrin yr Eglwys Newydd yn chwilio am Arweinydd** cymwys a brwdfrydig. I ddechrau Tymor yr Haf, 5 bore yr wythnos. Cyflog i'w drafod. Cysyllter â Elinor Patchett, rhif ffôn 01222 627733.

The WALES YEARBOOK 1·9·9·7 HTV

## Y Cyfeirlyfr Blynyddol Angenrheidiol

528 tudalen o ffeithiau, ffigurau, ystadegau, proffiliau, cysylltiadau, rhifau ffôn a chyfeiriadau.

**Yn cynnwys Adran arbennig 100 o dudalennau ar yr Etholiad Gyffredinol.** Aelodau apwyntiedig a Swyddogion y prif QUANGOs, yr Ymddiriedolaethau Iechyd newydd, y Swyddfa Gymreig, Aelodau Seneddol, system gyfreithiol Cymru a'r cyfryngau.

Dros 2000 o gysylltiadau wedi' u henwi ynghyd â rhestr fesul maes o dros 900 o fudiadau Cymreig.

***The Wales Yearbook 1997***

**Ar gael ym mhob siop lyfrau dda neu drwy'r post**

---

**Danfonwch ........ copi o *The Wales Yearbook 1997* @ £17.50 (yn cynnwys post)**

Amgaeaf siec (yn daladwy i **The Wales Yearbook**)

Enw: ..............................................................

Cyfeiriad: ..............................................................

..............................................................

Llofnod : ..............................................................

**Danfonwch at: The Wales Yearbook, Blwch Post 91, Aberystwyth SY23 3DU**

Gadewch hyd at 28 diwrnod i gyrraedd

# Taliesin

## Cylchgrawn Llenyddol Bywiocaf Cymru

*(-Yn ôl pob sôn!-)*

## CYNNIG ARBENNIG !

**TANYSGRIFIWCH**

***2 flynedd am £15 at eich drws***

pris arferol tanysgrifiad blwyddyn - £9

ag

Yr Academi Gymreig

Tŷ Mount Stuart, Sgwâr Mount Stuart,

Caerdydd, CF1 6DQ

**ADRAN Y GYMRAEG**

# LLÊN A BYWYD GWERIN YNG NGHAERDYDD

CWRS LLAWN AMSER NEU RAN AMSER
MEWN ASTUDIAETHAU GWERIN
YN ARWAIN AT RADD MA
MEWN ASTUDIAETHAU GWERIN
CYNIGIR Y CWRS GAN ADRAN Y GYMRAEG
MEWN CYDWEITHREDIAD AG
AMGUEDDFA WERIN CYMRU, UN O BRIF
AMGEUEDDFEYDD AWYR AGORED EWROP

Am fanylion pellach, cysylltwch â:
*TECWYN VAUGHAN JONES*
*ADRAN Y GYMRAEG*
*PRIFYSGOL CYMRU CAERDYDD*
*BLWCH S.P. 910*
*CAERDYDD CF1 3XW*
*Ffôn: (01222) 874843*
*E Bost: Jones TV@cfac.uk*

**I DDECHRAU MEDI 1997**

GOFYNNIR I YMGEISWYR FEDDU AR RADD PRIFYSGOL NEU GYMWYSTER PROFFESIYNOL CYMESUR

CAERDYDD

*Yn rhagori mewn ymchwil a dysgu*